# Siarter Rhianta Corfforaethol – Addewid o Gymru

## Dod yn Rhiant Corfforaethol – Beth mae hynny'n ei olygu i chi?

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Mae Rhianta Corfforaethol yn ymwneud â chefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i gael yr un cyfleoedd mewn bywyd â phob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.**

Trwy gofrestru i fod yn rhiant corfforaethol, rydych yn cytuno i ystyried yr egwyddorion canlynol wrth ddarparu eich gwasanaethau a'ch cefnogaeth bresennol, cynllunio gwasanaethau newydd a/neu ymgysylltu â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal:

## Yr Egwyddorion

### Egwyddor 1

**Cefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i gael yr un cyfleoedd bywyd â phob person ifanc arall yng Nghymru.**

**Enghraifft:** Mae cefnogi plentyn neu berson ifanc sydd â phrofiad o ofal i ddod o hyd i gartref sefydlog yn rhoi'r cyfle iddynt gael mynediad at addysg a chyflawni eu potensial.

### Egwyddor 2

**Adnabod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal am bwy ydyn nhw, nid dim ond oherwydd eu profiad o fod mewn gofal.**

**Enghraifft:** Trin pob plentyn a pherson ifanc yr un peth, beth bynnag fo'u cefndir.

### Egwyddor 3

**Gweithio ochr yn ochr â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i sicrhau bod eu barn, eu teimladau a'u syniadau yn rhan annatod o'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn a'r ffordd y maent yn eu derbyn.**

**Enghraifft:** Sicrhau bod unrhyw fforymau neu grwpiau rhanddeiliaid sydd ar waith, neu a gaiff eu sefydlu i ddatblygu gwasanaethau newydd, yn cynnwys pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.



### Egwyddor 4

**Sicrhau bod y staff yn eich sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc â phrofiad o ofal yn deall anghenion y plant a'r bobl ifanc hynny a/neu bod gwybodaeth a hyfforddiant ar gael iddynt.**

**Enghraifft:** Cyfeirio at anghenion plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal wrth hyfforddi staff newydd.

### Egwyddor 5

**Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cyrraedd eu potensial ac yn gallu mwynhau profiad eang o weithgareddau hamdden, diwylliannol, chwaraeon a chymdeithasol.**

**Enghraifft:** A oes modd sicrhau bod mynediad rhatach a/neu bris gostyngol ar gael ar gyfer gweithgareddau chwaraeon, hamdden a diwylliannol i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal?









## Egwyddor 6

**Trwy wneud i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu, eu gwarchod a'u caru.**

**Enghraifft:** Trwy wrando'n weithredol ar yr holl blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal rydych chi'n ymgysylltu â nhw.

## Egwyddor 7

**Trwy ddarparu cymorth i gael gafael ar y gofal a'r cyngor iechyd cywir sydd eu hangen i gefnogi'r lles corfforol, meddyliol a chyffredinol gorau ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc â phrofiad o ofal.**

**Enghraifft:** Sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cael eu cefnogi i fynychu apwyntiadau a'u bod yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth cywir i ddiwallu eu hanghenion.

## Egwyddor 8

**Trwy chwilio am leoedd sefydlog a darparu lleoedd sefydlog i fyw sy'n iawn ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal.**

**Enghraifft:** Trwy sicrhau bod anghenion a dymuniadau'r plentyn a'r person ifanc yn ganolog i unrhyw leoliad maeth neu fabwysiadu sy'n cael ei ystyried.

## Egwyddor 9

**Trwy ddarparu cyfleoedd a chefnogaeth i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal ddysgu/datblygu a'u helpu i ddod yn pwy y maent am fod.**

**Enghraifft:** Trefnu bod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cael cynnig lleoliadau profiad gwaith, cyfleoedd cysgodi gwaith, interniaethau, hyfforddeiaethau a phrentisiaethau.

## Egwyddor 10

**Trwy sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal yn barod ar gyfer y dyfodol ac yn gallu gwneud dewisiadau cadarnhaol ar gyfer byw'n annibynnol fel oedolyn.**

**Enghraifft:** Allwch chi ddarparu mentora un i un ar sut i reoli eu cyllid, eu canllawiau gyrfa/cyflogaeth a chyfleoedd addysg bellach?

## Egwyddor 11

**Trwy weithio i ddarparu mynediad at gymorth a gwybodaeth sydd ar gael i bobl ifanc ar ôl iddynt adael gofal, a chodi ymwybyddiaeth amdanynt.**

**Enghraifft:** Darparu mynediad at gymorth a gwybodaeth drwy amrywiaeth o sianeli – gwefannau, apiau, cyfryngau cymdeithasol a chyfarfodydd.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48263
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg